Adnabod Awdur

Meleri Wyn James

Mae 'na leoedd nad ewch chi fyth iddyn nhw. Mae 'na bethau na wnewch chi fyth mohonyn nhw. Ond gallwch chi brofi popeth trwy ddarllen . . . a thrwy ysgrifennu.

Do'n i ddim y groten fwya clyfar yn yr ysgol. Do'n i ddim y fwya poblogaidd, y fwya athletaidd na'r fwya pert – ond mi fûm y pethau yma i gyd yn fy storïau. Rwyf wedi neidio o ben mynydd uchel, rwyf wedi cwrdd â chariad ar y We, rwyf wedi etifeddu swm fawr o arian, rwyf wedi marw a dod yn ôl, rwyf wedi bod yn ddyn . . . rwyf wedi gwneud y pethau hyn i gyd achos fy mod i'n ysgrifennu.

Mae bywyd yn gallu bod yn grêt. Mae'n gallu bod yn llawn posibiliadau, yn llawn antur, yn llawn cyffro. Mae bywyd hefyd yn gallu bod yn boen. Weithiau, byddwch chi'n teimlo awydd dianc. Fe allwch chi ddianc ymhell i ffwrdd – dim ond i chi ddefnyddio'ch dychymyg. Os ydych chi'n darllen, os ydych chi'n ysgrifennu, gallwch chi fynd i unrhyw le, gallwch chi wneud unrhyw beth.

Fe ddysgais i hyn pan o'n i'n rhyw saith, wyth mlwydd oed. Ysgrifennais i fy stori gynta. Es i i'r gofod. Pan o'n i'n un ar ddeg es i'n joci. Ysgrifennais i stori ar gyfer cystadleuaeth mewn cylchgrawn ceffylau ac ennill pâr o jodphurs go iawn. Pan o'n i yn fy arddegau roedd gen i fwy o ddiddordeb mewn bechgyn nag mewn ceffylau. Doedd gan y bachgen mwya golygus yn yr ysgol ddim diddordeb yndda i mewn bywyd go iawn – ond yn fy storïau gallwn gael unrhyw fachgen ro'n i eisiau!

Pan mae pethau annheg, pethau torcalonnus, yn digwydd i mi, rwy'n ysgrifennu amdanyn nhw. Pan mae pethau anhygoel, pethau gwych, yn digwydd i mi, rwy'n ysgrifennu amdanyn nhw. Mae ysgrifennu yn therapi!

Rwy'n teimlo fel ysbïwr. Rwy'n byw bywyd dwbl. Mae fy mywyd i ar y blaned yma – ond mae gen i fywyd arall hefyd. Yn hwnnw does dim byd yn fy nal i'n ôl, heblaw ffiniau fy nychymyg. Ac mae fy nychymyg, fel y gofod lle bues i yn saith oed, yn ddiddiwedd.

Lluniau | Sion Ilar

Holiadur Awdur

Enw Meleri Wyn James

Dyddiad Geni 20.06.70

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu? Ces i fy ngeni yn Llandeilo ger Caerfyrddin a fy magu yn Beulah ger Castellnewydd Emlyn ac Aber-porth yn Sir Aberteifi. Rwy'n byw yn Aberystwyth nawr ac yn teimlo fel tipyn bach o sipsi!

Ble cawsoch chi eich addysg? Ysgolion Beulah ac Aber-porth, Ysgol Uwchradd Aberteifi a Phrifysgol Aberystwyth lle dechreuais i sgwennu o ddifri.

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny? Awdur neu joci! Ysgrifennodd fy nhad ddarn adrodd am fy mreuddwyd i fod yn joci. 'Tali-ho' oedd ei enw ac roedd e'n ddarn gosod yn yr Eisteddfod Genedlaethol un tro. Roedd yn brofiad rhyfedd clywed plant eraill yn ei adrodd!

Beth oedd eich hoff lyfr pan yn blentyn? Oes rhaid dewis un? Ro'n i wrth fy modd gyda llyfrau antur a dirgelwch T. Llew Jones, Dafydd Parri ac Enid Blyton.

Beth yw eich hoff ddiddordebau? Darllen llyfr dwi'n methu ei roi i lawr, mynd i'r pictiwrs a chael bag mawr o popcorn, potsian o gwmpas y tŷ a chloncan gyda ffrindiau da.

Beth sy'n eich gwylltio chi? Pobl haerllug ac anghyfiawnder.

Pa un oedd eich llyfr cyntaf? *Mwydyn yn yr Afal* – casgliad o straeon â thro yn eu cynffon. Enillais i wobr yn Eisteddfod yr Urdd a chafodd y llyfr ei gyhoeddi.

Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd i ysgrifennu? Dim bob amser! Ond unwaith fy mod i wedi dechrau, mae ysgrifennu'n rhoi teimlad braf i mi.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau?
O bob man a phob peth!

Ydych chi'n teimlo ei fod yn bwysig i ysgrifennu mewn dull cyfoes i apelio at gynulleidfa ifanc? Ydy a nac ydy. Mae angen pob math o lyfrau i blant a phobl ifanc. Mae'n bwysig mynd i'w byd nhw, ond mae rhai pethau'n oesol.

Oes ganddoch chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu? Ysgrifennwch y math o bethau ry'ch chi'n mwynhau ei ddarllen eich hun. Daliwch ati a mwynhewch!

Oes rhai o'ch cymeriadau wedi eu seilio arnoch chi? Mae yna elfennau ohona i mewn rhai cymeriadau – ond dwi ddim yn mynd i ddweud pwy na beth!

Oes unrhyw beth yr hoffech chi ei newid amdanoch eich hunan? Fe hoffwn gael gwell cof a mwy o drefn.

Beth yw eich hoff fwyd? Hufen iâ. Mae disgrifiad ardderchog o ferch ifanc yn blasu hufen iâ am y tro cynta yn *Hogan y Plas* gan Gweneth Lilly.

Beth yw eich hoff atgof? Mam-gu Post yn dweud storïau wrtha i a Catrin, fy chwaer, am hanner mochyn, hanner anghenfil o'r enw Rwch. Roedd ofn Rwch arnon ni ond roedden ni'n joio clywed amdano!

Oes gyda chi un peth rydych yn ei drysori'n fwy na dim arall? Fy nghyfrifiadur gwyn!

Beth sy'n gwneud i chi chwerthin? Jôcs fy ngŵr.

Unrhyw gyfrinachau eraill yr hoffech eu rhannu â phlant Cymru? Does neb yn gwybod popeth.

Llyfrau i'r Arddegau gan Meleri Wyn James

St@fell (Cyfres Whap) £4.99 (Gwasg Gomer)
Mrch Dd@ (Cyfres Whap) £4.99 (Gwasg Gomer)
Hlo Brian Rgs (Cyfres Whap) £4.99 (Gwasg Gomer)
Wyneb Rwber (Cyfres i'r Byw) £4.00 (Gwasg Gomer)
Y We (Cyfres i'r Byw) £4.00 (Gwasg Gomer)
Rhyfel Cartre (Cyfres Lleisiau) £3.00 (CAA)

2005
CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

gwales.com
Llyfrau ar-lein
Books on-line

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government